

Bioamrywiaeth

Dyletswydd neu Gyfle?

Deall cyfrifoldebau
Cyngor Sir Ddinbych
dan Ddeddf yr
Amgylchedd a
Chymunedau Gwledig
(NERC) 2006



Bioamrywiaeth: Amrywiaeth yr holl fywyd ar y Ddaear.

Yr hyn sy'n gwneud y blaned, gan gynnwys Sir Ddinbych, yn lle iach a hardd i fyw ynddo.

Dyletswydd Bioamrywiaeth



"Every public authority must, in exercising its functions, have regard, so far as is consistent with the proper exercise of those functions, to the purpose of conserving biodiversity".

Deddf yr Amgylchedd a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 a.40

Cyflwynwyd y ddeddf i godi proffil bioamrywiaeth, ac mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn rhan annatod o lunio polisi a chymryd penderfyniadau trwy'r sector cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i'r holl gyrrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr a'u hymgymerwyr statudol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, cyngorau cymuned a thref ynghyd ag adrannau llywodraeth ganolog, ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau'r heddlu, ymhlith eraill.



Mae gan awdurdodau lleol rôl arwain o ran cyflawni amgylchfyd naturiol cyfoethog ac amrywiol ac maent eisoes yn chwarae rhan wrth warchod bioamrywiaeth mewn nifer o ffyrdd. Mae hyn yn ychwanegol at ddyletswyddau statudol i amddiffyn safleoedd, cynefinoedd a rywogaethau a ddynodwyd. Mae'r pwyslais ar yr hyn y mae cyrrff cyhoeddus yn ei wneud, a'r hyn ddylent fod yn ei wneud y tu allan i'w swyddogaethau bioamrywiaeth craidd.

Dan Adran 42 o'r Ddeddf, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru lunio a chyhoeddi rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd allweddol yng Nghymru. Dyma Restr y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, sydd wedi ei atgynhyrchu yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Ddinbych. Mae Cynllun y Sir yn ychwanegu gwerth trwy flaenoriaethu camau i'w cymryd ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau o'r pwysigrwydd mwyaf yn ardal yr awdurdod lleol ac awdurdodau cyffiniol.



Pam fo Bioamrywiaeth mor bwysig?

Mae Sir Ddinbych yn gyfoethog o ran cynefinoedd bywyd gwyllt – o'r arfordir tymhestlog i weundiroedd grug ein hucheldiroedd, trwy goedlannau hynafol, glaswelltiroedd calchfaen, tir fferm a gwlyptiroedd. Mae bioamrywiaeth hefyd yn bwysig yn ein parciau, ein gerddi, ar ymyl y ffyrdd ac ar diroedd ysgolion. Dyma gonglfaen ein treftadaeth a'n hunaniaeth leol; mae'n bwysig i'r diwydiant twristiaeth ac yn hanfodol i ansawdd bywyd ein cymunedau. Mae bioamrywiaeth yn helpu creu lle deniadol i fyw ynddo ac yn rhoi cyfle i ymlacio, mwynhau a rhoi ysbrydoliaeth, ynghyd â chyfrannu tuag at ein hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'n ddangosydd o iechyd ehangach ein hamgylchedd ac yn rhoi i ni'r amodau, y cynhyrchion, deunyddiau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom i fyw ar y blaned hon – bwyd, meddyginaeth, deunydd adeiladu, rheoli llifogydd, peiliad a darparu aer a dŵr glân. Mae hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddelio gyda a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae bioamrywiaeth yn helpu cynnal economi lleol ac yn rhoi cyfle i'r gymuned leol ymgysylltu a gwirfoddoli, gan hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.




Felly sut gall Cyngor Sir Ddinbych ymgymryd â'r ddyletswydd hon?



Fel awdurdod cyhoeddus, dylai bioamrywiaeth fod wrth wraidd ein cyfundrefn. Dylai'r holl wasanaethau, pob tîm ac unigolyn, fod yn ymwybodol o'r ddyletswydd hon a cheisio ymgorffori bioamrywiaeth ym mhob maes o'u gwaith. Dylem fod yn ystyried goblygiadau holl weithgareddau'r Cyngor i leihau colledion a mwyhau cyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy wella'r gwasanaethau presennol, fel nad yw'n cynrychioli baich ariannol arwyddocaol.



Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn asesu cydymffurfriad gyda'r ddyletswydd hon trwy ymweld i arolygu'n rheolaidd. Fel awdurdod cymwys, mae Cyngor Sir Ddinbych yn gyfrifol am ei gydymffurfriad ei hun dan Ddeddf NERC a deddfwriaeth arall bywyd gwyllt, yn benodol y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych gyfrifoldeb hefyd dros gydymffurfriad eraill, gan gynnwys y sawl a gaiff eu hariannu gan y Cyngor i ymgymryd ag amrywiol weithgareddau. Gallai diffyg cydymffurfio arwain at niwed i gysylltiadau cyhoeddus, costau cyfreithiol arwyddocaol, beichiau gwaith trymion ac anadeiladol, adolygiad barnwrol ac, mewn achosion eithafol, ymyrraeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu'r Heddlu. Mae hyn yn ychwanegol at yr effeithiau negyddol ar ansawdd bywyd i gymunedau Sir Ddinbych os caniateir i'r golled mewn bioamrywiaeth barhau.



Mae arweiniad ar y ddyletswydd a gyhoeddwyd gan Defra a Chynulliad Cymru yn tanlinellu'r pedwar prif faes lle dylid cynnwys bioamrywiaeth o fewn swyddogaethau a gweithgareddau'r awdurdod lleol, a manylir y rhain ar y tudalennau sy'n dilyn.





1. Polisiâu a Strategaethau'r Cyngor



Er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried ar draws holl swyddogaethau'r awdurdod lleol, ac i ganiatáu digon o amser ac adnoddau, mae'n hanfodol bod ymrwymiad i warchod bioamrywiaeth yn cael ei ymgorffori ar lefel strategol o fewn polisiâu a strategaethau'r Cyngor.

Mae amddiffyn a gwella bioamrywiaeth yn cydymffurfio'n llawn gyda'r Weledigaeth i Sir Ddinbych fel lle delfrydol i fyw ynddo oherwydd y byddwn yn 'parchu a cynnal ein hamgylchfyd naturiol', a 'byddwn yn dathlu a pharchu amrywiaeth y sir'.

- Strategaethau corfforaethol
- Strategaethau cymunedol cynaliadwy
- Cytundebau ardal leol
- Strategaethau isranbarthol
- Newid yn yr hinsawdd
- Datblygiad cynaliadwy
- Cludiant
- Cynlluniau rheoli asedion
- Cynlluniau datblygu economaidd
- Systemau rheoli amgylcheddol
- Cadwraeth ynni
- Strategaeth dŵr
- Prynu
- Rheoli gwastraff
- Mwynau
- Addysg
- Seilwaith gwyrdd a strategaethau manau agored



2. Cynllunio, Seilwaith, Datblygu a Phrosiectau'r Cyngor



Mae amddiffyn bioamrywiaeth yn dibynnu'n fawr ar i ba raddau y caiff ei ystyried mewn prosiectau seilwaith a datblygu, a pha mor dda y mae'r broses gynllunio yn cynnwys bioamrywiaeth o fewn polisiau rheoli datblygu a defnyddio tir. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau statudol i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth, gydag egwyddorion allweddol wedi eu pennu yn y ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol ac arweiniad polisi. Mae cyfle arwyddocaol i wella ynghyd â chynnal bioamrywiaeth. Mae croesawu'r cyfleoedd hyn yn aml yn gwella'n arwyddocaol y datblygiad i'r defnyddiwr yn y pen draw hefyd. Mae bod â gwybodaeth gywir, ddiweddaraf yn gynnar yn y broses yn hanfodol os ydym eisiau bod yn effeithiol.

- Cynlluniau datblygu lleol
- Rheoli datblygu
- Arweiniad cynllunio
- Prosiectau a briffiau datblygu
- Seilwaith gwyrdd
- Adfywio

Astudiaeth achos:

Cytref o ystlumod trwyn pedol lleiaf wedi eu lletya a'u hamddiffyn trwy gydol gwaith adfer Nantclwyd y Dre, adeilad rhedredig graddfa 1 yn dyddio o'r 15fed ganrif, wedi ei achub rhag adfeiliad ac sydd bellach yn atyniad poblogaidd i dwristiaid – nid lleiaf oherwydd y glwyd ystlumod a ddangosir ar fonitor yn y tŷ.



3. Rheoli Tir ac Adeiladau'r Cyngor

Mae awdurdodau lleol yn meddu ar ac yn rheoli amrywiaeth eang o dir ac eiddo, pob un yn medru darparu cynefin i fywyd gwyllt ynghyd â chynnig mannau cyhoeddus braf a diddorol i bobl. Mae amddiffyn a gwella bioamrywiaeth ar ein stâd ein hunain yn un ffordd y gall y Cyngor wneud gwahaniaeth arwyddocaol. Gellir hefyd leihau'r effaith ar fioamrywiaeth wrth edrych ar sut caiff y mannau hyn eu defnyddio a'u rheoli. Gall awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo rheolaeth fanteisiol tir yn eu hardaloedd gweinyddol trwy ddefnyddio eu stâd eu hunain fel enghraifft o arferion gorau.

- Priffyrdd ac ymylon ffordd
- Lonydd gleision a gwrychoedd
- Hawliau tramwy
- Y stâd amaethyddol
- Parciau gwledig
- Parciau lleol a mannau agored cyhoeddus
- Mynwentydd ac amlogsfeydd
- Caeau chwarae a chyrsiau golff
- Rhandiroedd
- Safleoedd cefn gwlad a Safleoedd Bywyd Gwyllt Cefn Gwlad
- Coedlannau
- Tir diffaith / safleoedd tir llwyd
- Hen reilffyrdd
- Coridorau afonydd a chamlesi
- Stadau tai
- Unedau gofal, amgueddfeydd, swyddfeydd, canolfannau hamdden, depos
- Adeiladau hanesyddol a henebion
- Ysgolion
- Pontydd a strwythurau eraill
- Ardaloedd ger y dŵr a'r arfordir
- Tir comin
- Safleoedd mwynderau dinesig

Astudiaeth achos:


Sil i ddyfrgwn, wedi ei gosod dan bont ar yr A494 yn Loggerheads, a oedd unwaith yn lle drwg o ran lladd dyfrgwn ar y ffordd – mae'n sicrhau nad oes angen iddynt groesi'r ffordd pan fo'r afon yn gorlifo.

Astudiaeth achos:

Pwll Cae Brics, hen dwll clai a oedd yn ddifffraith am flynyddoedd. Mae wedi ei drosi'n llyn dŵr ffres braf gyda glaswelltir, prysgwydd a choedlannau o'i gwmpas sy'n hafan i adar mudol a rhai sy'n aros dros y gaeaf, ac mae'n safle poblogaidd i ymwelwyr dynol.



4. Ymgysylltu Cymunedol, Addysg, Cyngor ac Ymwybyddiaeth



Mae ymchwil yn ddiweddar wedi dangos cysylltiad rhwng cael mynediad at natur, ac iechyd a hapusrwydd dynol. Gellid defnyddio amgylchfyd amrywiol a chadarn i gefnogi cyflwyniad ystod eang o wasanaethau awdurdodau lleol, o deithiau iach i dasgau ymarferol i'r gwasanaeth prawf. Gall awdurdodau lleol hybu mynediad at natur a dealltwriaeth o'r byd naturiol mewn ysgolion, trwy raglenni cymunedol a thrwy wasanaethau gwybodaeth. Mae hyn yn helpu ysbrydoli pobl a chynyddu dealltwriaeth o fioamrywiaeth a materion cadwraeth a dangos eu bod yn berthnasol i iechyd a lles.

- Addysg
- Adloniant a mynediad
- Gwasanaethau iechyd
- Atgyfeiriad gan feddyg teulu
- Teithiau iechyd
- Gofal cymdeithasol
- Llyfrgelloedd ac amgueddfeydd
- Canolfannau a gwasanaethau gwybodaeth
- Hybu'r ardal leol ar gyfer busnes a thwristiaeth
- Gwaith maes cymunedol
- Digwyddiadau i'r teulu, teithiau, areithiau
- Rhaglen garddio bywyd gwyllt
- Gwirfoddoli – cyhoeddus a chorfforaethol
- Gwasanaethau cynghori

Astudiaeth Achos:

Pen Coed yn Ninbych, a reolir trwy bartneriaeth rhwng y Cyngor a'r gymuned leol gyda grwpiau o gefndiroedd amrywiol ond yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl, yn dod i helpu gyda thasgau rheoli rheolaidd.



Cynllun Cyflawni Dyletswyddau Bioamrywiaeth Sir Ddinbych

Cymeradwywyd Cynllun Cyflawni Dyletswyddau Bioamrywiaeth Sir Ddinbych yn 2008, ac mae'n esbonio sut gall y Cyngor gydymffurfio gyda Deddf Dyletswyddau Bioamrywiaeth NERC a chyflawni arferion gorau, ynghyd â thanlinellu cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth arall bywyd gwyllt y DU. Mae'n nodi meysydd allweddol o fewn yr awdurdod lle mae'r cyfle'n bodoli a lle mae angen cymryd camau blaenoriaeth, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer camau a chynnydd pellach. Mae camau'n amrywio o amddiffyn cynefinoedd sy'n rhyngwladol bwysig i wella amgylchedd naturiol caeau ysgolion. Mae'n ystyried holl wasanaethau'r Cyngor a bydd yn helpu cyflawni rhaglenni amgylcheddol, gwaith adrannol ar fioamrywiaeth a chynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff y Cyngor. Mae'n tanlinellu cydnabyddiaeth arwyddocaol bod bioamrywiaeth yn sylfaen i gynaliadwydd ac yn pwysleisio pwysigrwydd natur i ansawdd bywyd yn Sir Ddinbych.


Gellir llwytho'r cynllun cyflawni i lawr o adran Deddf NERC gwefan Bioamrywiaeth Sir Ddinbych yn:

www.bioamrywiaethysirddinbych.gov.uk

Syniadau syml, ymarferol i hybu bioamrywiaeth:

- Gosod blychau ystlumod ac adar
- Plannu coed, gwrychoedd a phrysgwydd cynhenid
- Creu toeau gwyrdd
- Cysylltu gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol gyda gweithgareddau bioamrywiaeth
- Gwellu llwybrau cerdded a beicio ar gyfer bioamrywiaeth
- Gwellu mannau parciau ar gyfer bioamrywiaeth
- Creu ardaloedd bywyd gwyllt mewn parciau, caeau ysgol, gerddi
- cartrefi gofal a gerddi cymunedol
- Polisiâu prynu cynaliadwy
- Annog busnesau a'r cyhoedd yn gyffredinol i wella bioamrywiaeth
- Defnyddio cynhyrchion nad ydynt yn cynnwys mawn
- Cynyddu effeithlonrwydd ynni
- Defnyddio cynhyrchion cynaliadwy
- Gadael pren marw ar ôl gweithio ar goed
- Lleihau defnydd pleiddiad
- Disodli gwelydau blodau addurniadol gyda phlanhigion sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt
- Lleihau llygredd golau a sŵn o adeiladau
- Hybu bioamrywiaeth Sir Ddinbych fel rheswm i dwristiaid ymweld â'r sir

Mae tîm bioamrywiaeth Sir Ddinbych ar gael i helpu gyda mwy o syniadau ar annog bioamrywiaeth ac i gynghori ar y cyfrifoldebau cyfreithiol.



Gwybodaeth bellach



Am gyngor cyffredinol a help, cysylltwch â'r tîm bioamrywiaeth ar 01824 708234/8263 neu yn bioamrywiaeth@sirddinbych.gov.uk


Mae arweiniad cenedlaethol ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth NERC ar gael yn www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/biodiversity/index.htm

I lwytho Cynllun Gweithredu Lleol Bioamrywiaeth Sir Ddinbych i lawr ac i gael mwy o wybodaeth gyffredinol ar fioamrywiaeth a phartneriaeth bioamrywiaeth Sir Ddinbych ewch i www.bioamrywiaethysirddinbych.co.uk

I weld gwybodaeth ar Ddeddf NERC, arweiniad ar ei gweithrediad a rhestr adran 42, ewch i www.biodiversitywales.org.uk/legislation_guidance-20.aspx



I ddysgu mwy am gofnodi rhywogaethau yng Ngogledd Cymru, ewch i Cofnod, canolfan gofnodi leol Gogledd Cymru yn www.cofnod.org.uk



Mae Cynllun Gweithredu Lleol Bioamrywiaeth Sir Ddinbych: Ein Dyfodol gyda Bywyd Gwylt yn trosi blaenoriaethau a thargedau cenedlaethol yn weithredu lleol. Mae'n adnabod dulliau penodol o amddiffyn ac adfer rhywogaethau a chynefinoedd yn ein hamgylchfyd lleol, cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith pob sector o gymdeithas a chynyddu ymrwymiad i warchod bioamrywiaeth. Caiff ei gydgyssylltu trwy bartneriaeth o bobl a mudiadau gwybodus, â diddordeb, gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth a chyirff gwirfoddol.

